**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

David Rees AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

6 Mai 2015

Annwyl David,

**Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)**

Yn dilyn fy llythyr a anfonwyd ar 16 Mawrth, mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg bellach wedi ystyried y dystiolaeth ysgrifenedig a ddaeth i law yn yr ymgynghoriad yng Nghyfnod 1 o'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru).

Nodwn i dystiolaeth sy'n cyfeirio'n benodol at blant a phobl ifanc ddod i law oddi wrth dri sefydliad (Barnardo's Cymru, NSPCC Cymru ac ATL). Mae'r dystiolaeth hon yn nodi yn glir oblygiadau'r Bil a'r effaith o ran y modd y gellid cyflawni darpariaethau penodol yn ymarferol, ond mae'r tri sefydliad, mae'n ymddangos, i gryn raddau o blaid y Bil.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn deall bod y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi trefnu sesiwn banel ar gyfer 21 Mai yn ymwneud â'r Bil ac y bydd honno'n canolbwyntio'n benodol ar faterion plant.

Gan ystyried y dystiolaeth a gafwyd, ynghyd â'r sesiwn graffu a drefnwyd ar gyfer 21 Mai, mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg felly wedi cytuno i beidio â chynnal ei waith craffu ei hun ar y Bil. Serch hynny, mae'r Pwyllgor yn annog y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i sicrhau bod unrhyw bryderon a godir sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys yr hyn a nodir uchod, yn cael eu hystyried yn ei waith craffu yng Nghyfnod 1.

Yn gywir

**Ann Jones AC / AM**
Cadeirydd / Chair

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565